OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1478

# Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021

## RHAN 2

### Darpariaethau ynghylch Gweithfeydd

*Pwerau atodol*

**Arolwg o weithfeydd llanwol**

**19.**—(1) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn hwylus gwneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru orchymyn arolwg ac archwiliad o waith llanwol neu'r safle y bwriedir adeiladu neu ailbweru'r gwaith arno, a bydd unrhyw wariant y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddo'n rhesymol mewn unrhyw gyfryw arolwg ac archwiliad yn adenilladwy oddi wrth yr ymgymerwr.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni chaniateir gorchymyn y cyfryw arolygon fwy nag unwaith y flwyddyn; a chyn gorchymyn y cyfryw arolwg—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r ymgymerwr er mwyn cadarnhau pa wybodaeth berthnasol o arolygon sydd eisoes ar gael; a

(b) rhoi cyfle i ymgymerwr gynnal yr arolwg ei hun.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys mewn argyfwng.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn bwriadu gorchymyn arolwg ac archwiliad y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru wneud hynny yn unol â'r cyfryw amodau rhesymol sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch neu gyfrinachedd ag a osodir gan yr ymgymerwr.